OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1022

# Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Gweinyddu) (Cymru) 2017

## RHAN 1

## Cyffredinol

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Gweinyddu) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2018 ac eithrio rheoliadau yn Rhannau 1 a 2 sy'n dod i rym ar 21 Tachwedd 2017.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf CRhT" ("*the TCM Act*") yw Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016;

ystyr "derbynnydd yr hysbysiad" ("*notice recipient*") yw'r trethdalwr y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 86 o'r Ddeddf CRhT neu drydydd parti y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 87 neu 89 o'r Ddeddf CRhT, neu berson a awdurdodir i weithredu ar ei ran;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod heblaw diwrnod nad yw'n ddiwrnod busnes o fewn yr ystyr a roddir i "non-business days" yn adran 92 o Ddeddf Biliau Cyfnewid 1882(**1**);

ystyr "dogfen" ("*document*") yw gwybodaeth, dogfen neu ran o ddogfen; ac

ystyr "dogfen y mae anghydfod yn ei chylch" ("*document in dispute*") yw dogfen y mae anghydfod yn ei chylch rhwng ACC a pherson sydd wedi cael hysbysiad gwybodaeth, o ran a yw'r ddogfen yn ddarostyngedig i fraint broffesiynol gyfreithiol.

(**1**) 1882 p. 61.